

Aseswr NVQ

Cyflwyniad

Mae aseswyr NVQ yn helpu ac yn asesu pobl sy'n cwblhau cymwysterau NVQ yn y gweithle. Maen nhw fel arfer yn teithio o gwmpas ardal, yn ymweld â phobl mewn gwahanol weithleoedd.

Adwaenir hefyd fel

- Aseswr Dysgu Seiliedig ar Waith
- Aseswr SVQ
- Asesydd Prentisiaeth
- Asesydd FfCCh
- Asesydd Hyfforddi



Gweithgareddau Gwaith

Fel Aseswr NVQ, byddwch yn ymweld â dysgwyr yn y gweithle, i'w tywys drwy'r cymhwyster a sicrhau bod yr NVQ yn cael ei gwblhau'n foddhaol. Mae aseswyr yn cyflwyno dysgwyr i'r NVQ penodol y byddan nhw'n ei ddilyn. Os oes grwp o ddysgwyr mewn un man, byddwch yn gwneud cyflwyniad i'r grwp. Yna, byddwch yn gwneud yn siwr y bydd pob dysgwr yn gweithio ar yr NVQ sy'n fwyaf addas i'w brofiad a'i allu. Byddwch yn treulio amser gyda phob dysgwr, yn cael gwybod am unrhyw gyflawniadau perthnasol sydd ganddo'n barod. Yn aml, mae'r cyflawniadau hyn yn gallu cyfrif tuag at y cymhwyster; mae angen i chi benderfynu ai dyma'r achos neu beidio. I gyflawni NVQ, mae angen i bob dysgwr gyflwyno tystiolaeth o'r pethau mae'n ei wneud yn rhan o'i swydd bob dydd. Mae hyn yn arddangos gallu'r dysgwr i wneud ei swydd. Byddwch yn gweithio gyda'r dysgwr i gytuno ar y gweithgareddau mwyaf perthnasol a fydd yn cyfrif fel tystiolaeth iddo. Un o'ch prif dasgau fydd gwylio dysgwyr yn cwblhau tasgau sy'n benodol i'r gwaith. Hefyd, bydd Goruchwyliwr neu Reolwr y dysgwr yn aml yn gwylio tasgau ac yn gwirio eu bod wedi'u cyflawni'n llwyddiannus pan fyddwch chi'n ymweld nesaf. Byddwch yn cofnodi ac yn adolygu cynnydd dros gyfnod o amser, fel arfer gan ymweld â phob dysgwr unwaith y mis.

Gyda'ch gilydd, byddwch chi a dysgwyr yn penderfynu faint o amser y bydd y dysgwr yn ei gymryd i gwblhau'r NVQ. Mae aseswyr yn cynnig cyngor a chymorth, pan fydd eu hangen, ac yn rhoi adborth adeiladol. Byddwch yn rhoi hyfforddiant i ddysgwyr, lle mae gofyn, i lenwi'r bylchau yn eu sgiliau a'u gwybodaeth. Byddwch fel arfer yn gyfrifol am gynllunio'ch gwaith a rheoli'ch dyddiadur. Byddwch yn teithio rhwng lleoliadau ac yn cadw cofnodion manwl o bob dysgwr rydych yn gweithio gydag ef. Byddwch yn gweithio mewn tîm gydag Aseswyr NVQ eraill, a hefyd gyda Gwirwyr, sy'n gyfrifol am reoli ansawdd gwaith tîm o Aseswyr NVQ. Mae rhai yn gyfrifol am helpu i ddatblygu'r cymwysterau NVQ maen nhw'n gweithio gyda nhw, a sicrhau eu bod yn gyfoes. Gallai darllen, ysgrifennu a siarad Cymraeg fod o fantais wrth chwilio am waith yng Nghymru.

Rhinweddau Personol a Sgiliau

I ddod yn Aseswr NVQ, byddwch angen:

- sgiliau cyfathrebu, yn ysgrifenedig ac yn llafar
- sgiliau rhyngpersonol a sgiliau cyflwyno
- y gallu i gefnogi, monitro, a chymell dysgwyr
- sgiliau TGCh
- profiad o'r maes gwaith perthnasol
- dealltwriaeth o systemau NVQ a chyfle cyfartal
- sgiliau gweinyddu

Mae'n debygol y bydd angen trwydded yrru arnoch, am fod angen teithio o gwmpas o'r naill le i'r llall yn y swydd.

Cyflog a Chyfleoedd

Cyflog Mae'r cyfraddau cyflog sy'n cael eu rhoi isod yn rhai bras.

- Cychwynnol: £23,500 - £24,000
- Gyda phrofiad: £26,500 - £30,000
- Safleoedd uwch: £33,500 - £36,500

Oriau gwaith

Mae Aseswyr NVQ fel arfer yn gweithio oriau swyddfa, ddydd Llun i ddydd Gwener, ond efallai weithiau bydd angen iddyn nhw ddechrau'n fore neu orffen yn hwyr, gan ddibynnu ar amser paratoi, neu'r amser i deithio i safleoedd cleientiaid. Mae cyfleoedd ar gyfer rhannu swydd, gwaith rhan-amser a gwaith dros dro.

Ble allwn i weithio? Mae cyfleoedd ar gael ledled y DU. Y cyflogwyr yw colegau, sefydliadau hyfforddiant a chwmnïau yn y sector preifat. **Hunangyflogaeth**

Mae cyfleoedd i weithio yn hunangyflogedig, ar eich liwt eich hun. Mae rhai yn gallu gweithio o gartref, fel Aseswyr Dysgu o Bell. **Ble mae swyddi'n cael eu hysbysebu?**

Mae swyddi'n cael eu hysbysebu mewn papurau newydd lleol, yn y Ganolfan Byd Gwaith, ar wefan Dod o Hyd i Swydd, ac ar hysbysfyrddau swyddi.

Llwybrau Mynediad a Hyfforddiant

Llwybrau mynediad a hyfforddiant

Mae cyflogwyr fel arfer yn chwilio am bobl sydd â phrofiad o'r sector perthnasol, neu sy'n gweithio yn y sector perthnasol ar hyn o bryd. Yn aml, bydd angen profiad goruchwyllo neu reoli arnoch yn y maes perthnasol. Mae profiad o roi hyfforddiant yn fantais.

Er bod cyflogwyr yn aml yn gofyn am aseswyr cymwysedig am swyddi, bydd rhai cyflogwyr yn cyflogi aseswyr dan hyfforddiant a fydd yn cwblhau'r cymhwyster asesu perthnasol, dan oruchwyliaeth, wrth iddyn nhw fagu profiad.

Gallwch hyfforddi drwy gymhwyster City & Guilds mewn asesu ar lefelau 3 a 4.

Dilyniant

Gallech symud ymlaen i gefnogi aseswyr eraill a sicrhau eu bod yn cynnig lefel asesu o ansawdd uchel. Am hyn, dylech wneud y cymhwyster lefel 4 mewn asesu gan City & Guilds.

Cymwysterau

Efallai bydd cyflogwyr yn gofyn am gymwysterau City & Guilds. Efallai byddent yn gofyn am TGAU (A*-C neu 9 - 4) mewn Saesneg a mathemateg hefyd.

Cyfleoedd i Oedolion

Terfynau oedran

Mae'n anghyfreithlon i unrhyw sefydliad bennu terfynau oedran ar gyfer mynediad i waith, addysg neu hyfforddiant, oni bai eu bod yn gallu dangos bod gwir angen am y terfynau hyn.

Sgiliau/profiad

Fel arfer, mae angen cymwysterau a chefnidir galwedigaethol perthnasol ar newydd-ddyfodiaid i asesu NVQ. Mae hyn yn golygu mai ail ddewis gyrfa yw hwn yn aml.

Ystadegau

- Mae 13% o'r rheini sy'n gweithio mewn galwedigaethau fel aseswr NVQ yn hunangyflogedig.
- Mae 24% yn gweithio rhan-amser.
- Mae 27% yn gweithio oriau hyblyg.
- Mae 8% o weithwyr yn gweithio dros dro.

Gwybodaeth Bellach

Cysylltiadau

- **City & Guilds**
Cyfeiriad 1 Giltspur Street, London EC1A 9DD
Ffôn 020 7294 2468
E-bost learnersupport@cityandguilds.com
Gwefan www.cityandguilds.com
- **Scottish Qualifications Authority (SQA)**
Scottish enquiries
Ffôn 0345 2791000
E-bost customer@sqa.org.uk
Gwefan www.sqa.org.uk
- **Institute of Assessors and Internal Verifiers**
Cyfeiriad PO Box 1138, Warrington WA4 9GS
Ffôn 01925 485786
E-bost office@iavltd.co.uk
Gwefan www.iavltd.co.uk
- **The Vocational Assessor Handbook**
Authors: Ros Ollin, Jenny Tucker Publisher: Kogan Page
- **People Exchange Cymru (PEC)**
Public sector recruitment portal for Wales
E-bost peopleexchangeymru@gov.wales
Gwefan www.peopleexchangeymru.org.uk/home

Gyrfaoedd sy'n gysylltiedig

- Nyrs Feithrin
- Goruchwylydd Amser Cinio
- Athro Hanes
- Athro Daearyddiaeth
- Athro Ieithoedd Tramor Modern
- Cynorthwy-ydd Addysgu
- Athro Cerddoriaeth
- Athro Saesneg
- Athro Mathemateg
- Athro Gwyddoniaeth
- Swyddog Lles Addysg
- Gweithiwr Chwarae
- Athro Anghenion Addysgol Arbennig
- Athro Celf a Dylunio
- Athro Dylunio a Thechnoleg
- Athro Blynyddoedd Cynnar
- Athro Addysg Gorfforol
- Athro Cynradd
- Athro Uwchradd
- Rheolwr Hyfforddi
- Darlithydd Addysg Uwch
- Rheolwr Busnes Ysgolion
- Athro Saesneg fel Iaith Dramor
- Darlithydd
- Athro/Athrawes
- Athro Cymraeg
- Cynorthwydd Meithrin
- Pennaeth